

## Cynllun Bwndel Babi

### ADRAN 1. PA GAM GWEITHREDU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EI YSTYRIED A PHAM?

Er mwyn gwella deilliannau hirdymor i'r boblogaeth gyfan, mae angen sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd, gyda ffocws ar sicrhau bod y plant sydd fwyaf agored i niwed ac yn wynebu'r risg fwyaf yn cael eu hadnabod ac yn cael cymorth. Mae ar Lywodraeth Cymru eisiau sicrhau bod yr holl blant, ni waeth beth fo'u cefndir, yn cael eu cefnogi yn y dyhead hwn. Mae'r ymrwymiad hwn wedi'i gynnwys yn y ddogfen strategaeth genedlaethol *Ffyniant i Bawb*, yn enwedig y themâu allweddol *Iach ac Egniol a Ffyniannus a Diogel*. Mae'r Blynyddoedd Cynnar hefyd wedi'u rhestru fel Maes Blaenoriaeth yn *Ffyniant i Bawb*.

Ceir tystiolaeth gynyddol i ddangos bod y dechrau un ym mywyd plentyn yn gallu cael effaith ddofn a pharhaus ar ei ddatblygiad gwybyddol, corfforol a chymdeithasol ac emosiynol, felly mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi plant orau y gall. Mae'r gwaith sy'n cael ei wneud fel rhan o Dechrau'n Deg, y Rhaglen Plentyn Iach Cymru a'r Rhaglen 1000 o Ddiwrnodau Cyntaf yn dangos y pwys sydd eisoes yn cael ei roi ar sicrhau bod plant yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd.

Bydd cynnig bwndel babi nid yn unig yn dangos y pwys y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi ar blant, ond bydd yn arwydd pendant o gymorth gan Lywodraeth Cymru i rieni a phlant ar adeg allweddol bwysig mewn bywyd. Bydd hefyd yn darparu bwndel o nwyddau defnyddiol a fydd yn mynd gryn dipyn o'r ffordd tuag at leihau'r angen am wariant ariannol gan rieni, er mwyn sicrhau bod y baban newydd-anedig yn cael dillad a gofal priodol. Trwy ddarparu eitemau a thafleini gwybodaeth allweddol, mae'r bwndel babi wedi'i fwriadu i gynyddu dealltwriaeth rhieni am ymddygiad cadarnhaol megis cysgu'n ddiogel, ymlyniad, a bwydo ar y fron a'u hannog i arfer yr ymddygiadau hyn yn fwy. Bydd y bwndel yn ogystal â'r broses gofrestru hefyd yn rhoi cyfle i weithwyr iechyd proffesiynol ennyn ymgysylltiad teuluoedd ag ystod eang o wasanaethau iechyd, a chychwyn sgysiau am ymddygiadau cadarnhaol megis mabwysiadu arferion bwyta'n iach a ffyrdd iach o fyw, rhoi'r gorau i ysmegu a monitro carbon monocsid yn ogystal â'r neges 'dim alcohol'. Fodd bynnag, bydd angen i'r negeseuon gael eu dethol yn ofalus er mwyn peidio â'u gorlethu; y bwriad yw mai rhodd yw'r bwndel – heb unrhyw amodau.

Ymddangosodd y cynnig am brosiect peilot bwndel babi fel rhodd "croeso i'r byd" gan Lywodraeth Cymru am y tro cyntaf yn ymrwymadau maniffesto ethol y Prif Weinidog cyfredol ac mae'r cyfrifoldeb am ei hyrwyddo wedi cael ei ddyrannu ers hynny i'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r Dirprwy Weinidog wedi rhoi cyfarwyddyd clir y dylai unrhyw gynllun bwndel babi gan Lywodraeth Cymru fod ar gael i bob baban newydd-anedig, yn hytrach na chael ei dargedu at ardaloedd penodol neu ddemograffeg benodol. Mae swyddogion wedi cwrdd ag unigolion a fu'n gyfrifol am awgrymu'r syniad am y cynllun wrth Brif

Weinidog Cymru a'r Dirprwy Weinidog yn y lle cyntaf ac maent yn fodlon bod y cynnig hwn yn adlewyrchu'r trafodaethau hynny.

Ymddengys yn briodol y dylai unrhyw gynllun bwndel babi gan Lywodraeth Cymru gael ei ddarparu yng nghyd-destun *Ffyniant i Bawb*, yn enwedig themâu allweddol *lach ac Egniol a Ffyniannus a Diogel* a'r Maes Blaenoriaeth *Blynyddoedd Cynnar*.

Dylid ystyried hefyd ei fod yn rhan annatod o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gefnogi plant a theuluoedd, ochr yn ochr â gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud yng Nghymru i wella deilliannau iechyd ac anghydraddoldeb i blant, er enghraifft:

- Rhaglen Plentyn lach Cymru
- Dechrau'n Deg
- Y 1000 o Ddiwrnodau Cyntaf
- Agenda draws-bortffolio'r Blynyddoedd Cynnar
- Magu Plant – Rhowch Amser Iddo
- Teuluoedd yn Gyntaf
- Dechrau lach
- Cynllun Gwên
- Gwaith Gwybodaeth i Rieni sy'n cael ei wneud gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

**Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Deddf LICD) yn rhoi'r uchelgais, y caniatâd a'r rhwymedigaeth gyfreithiol i Gymru wella ein llesiant cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd.**

**Yn greiddiol i Ddeddf LICD mae'r saith Nod Craidd. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn glir bod rhaid i'r cyrff cyhoeddus a restrir weithio i gyrraedd y Nodau i gyd, nid dim ond un neu ddau. Mae swyddogion wedi cynhyrchu dadansoddiad lefel uchel o'r ffyrdd y gallai'r bwndel babi gyfrannu at y Nodau, gan hefyd ategu ein hamcanion o ran deilliannau lles cymdeithasol a gwella iechyd; mae'r rhestr fel a ganlyn:**

**Cymru Lewyrchus – lleihau anghydraddoldeb o ran mynediad at nwyddau hanfodol ar gyfer babanod newydd-anedig; datblygu cymorth a sgiliau magu plant.**

**Cymru Gydnerth – hybu mynediad at wasanaethau cymorth ehangach ar gyfer rhieni; cefnogi ymlyniad a datblygiad meddyliol babanod.**

**Cymru sy'n Fwy Cyfartal – lleihau anghydraddoldeb o ran mynediad at nwyddau hanfodol ar gyfer babanod newydd-anedig.**

**Cymru lachach – cefnogi rhaglenni imiwneiddio ac archwiliadau babanod/ Rhaglen Plentyn Iach Cymru; hyrwyddo bwydo ar y fron a negeseuon am gysgu'n ddiogel.**

**Cymru o Gymunedau Cydlynus – rhoi anogaeth ar gyfer diogelwch cymunedau a chartrefi; hyrwyddo gwybodaeth am wasanaethau cymorth ehangach i rieni a mynediad atynt.**

**Cymru â Diwylliant Bywiog Lle Mae'r Gymraeg yn Ffynnu – darparu a chefnogi twf, llyfrau babanod, meithrin, hwiangerddi; gwybodaeth i ddarparu rieni am addysg cyfrwng Gymraeg.**

**Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang – darparu cewynnau neu bediau nyrsio aildddefnyddiadwy (neu daleb ar eu cyfer) yn hytrach na rhai untro, sy'n aml yn gallu diweddu mewn safle tirlenwi.**

Mae costau cyflwyno cynllun peilot yn dal i gael eu hystyried ac maent yn ddibynnol ar gaffael. Fel enghraifft o gostau posibl ymarfer peilot, fe gostiodd cynllun peilot a gafodd ei redeg gan Lywodraeth yr Alban oddeutu £100k i gyflenwi tua 200 o flychau babanod. Fe wnaeth y costau dilynol am bob blwch ostwng gan bod modd gosod archebion mwy am nwyddau unwaith y cytunwyd ar gynllun cyffredinol gydag amrywiaeth o gynnwys a oedd wedi'i diffinio'n glir.

Yn dilyn trafodaeth ar lefel Gweinidogion, bydd y cyllid ar gyfer y cynllun peilot yn dod o'r gyllideb MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol bresennol.

**Ni fydd unrhyw ddeddfwriaeth yn ofynnol i dreialu Cynllun Bwndel Babi gan Lywodraeth Cymru nac i gyflwyno cynllun o'r fath wedi hynny.**

## **A. ASESIAID O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT**

**Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar blant a phobl ifanc.**

- ♦ ***Sut fydd y cynnig yn effeithio ar fywydau plant, yn gadarnhaol ac yn negyddol?***

Bydd cynnig bwndel babi i bob baban newydd-anedig nid yn unig yn dangos y pwys y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi ar blant, ond bydd yn arwydd pendant o gymorth gan Lywodraeth Cymru i rieni a phlant ar adeg allweddol bwysig mewn bywyd. Bydd hefyd yn darparu bwndel defnyddiol o nwyddau a fydd yn mynd gryn dipyn o'r ffordd tuag at leihau'r angen am wariant ariannol gan rieni, er mwyn sicrhau bod y baban newydd-anedig yn cael dillad a gofal priodol. Trwy ddarparu eitemau a thafenni gwybodaeth allweddol, mae'r bwndel babi wedi'i fwrriadu i gynyddu dealltwriaeth rhieni am ymddygiad cadarnhaol megis cysgu'n ddiogel, ymlyniad, a bwydo ar y fron a'u hannog i arfer yr ymddygiadau hyn yn fwy. Bydd y bwndel yn ogystal â'r broses gofrestru hefyd yn rhoi cyfle i weithwyr iechyd proffesiynol ennyn ymgysylltiad teuluoedd ag ystod eang o wasanaethau iechyd, a chychwyn sgysiau am ymddygiadau cadarnhaol ac ymddygiadau sy'n

creu risg megis mabwysiadu arferion bwyta'n iach a ffyrdd iach o fyw, rhoi'r gorau i ysmegu a monitro carbon monocsid yn ogystal â'r neges 'dim alcohol'. Fodd bynnag, bydd angen i'r negeseuon gael eu dethol yn ofalus er mwyn peidio â'u gorlethu; y bwriad yw mai rhodd yw'r bwndel – heb unrhyw amodau.

Bydd y cynllun peilot ar raddfa fach – tua 200 o fwndeli'n cael eu dosbarthu. Efallai y bydd effaith negyddol ar deuluoedd sy'n byw yn yr ardal beilot nad ydynt yn rhan o'r cynllun peilot. Bydd angen rheoli hyn trwy'r broses gyflawni a thrwy gyfathrebu gofalus.

- ♦ ***Sut fydd y cynnig yn effeithio ar wahanol grwpiau o blant (e.e. plant sydd wedi cael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs), plant sy'n byw mewn tlodi, plant ag anabledd, plant sy'n byw mewn aelwydydd Cymraeg a phlant mewn addysg cyfrwng Cymraeg a.y.b.)***

**Bydd bwndeli'n cael eu dosbarthu i bob baban newydd-anedig.**

**Mae'r ardal beilot yn debygol iawn o gynnwys ystod o dderbynyddion o wahanol gefndiroedd felly gall fod effaith gadarnhaol.**

**Mae canfyddiadau grwpiau ffocws wedi datgelu cefnogaeth gref i'r cynllun. Mae grwpiau ffocws wedi cynnwys unigolion o ystod o gefndiroedd.**

**Mae'r cynllun yn cynnig y potensial ar gyfer effaith gadarnhaol fach ar blant presennol trwy leihau'r angen am wariant ariannol ar nwyddau i fabanod newydd-anedig a chan olygu felly y bydd mwy o incwm gwario gan deuluoedd.**

- ♦ ***Pa dystiolaeth ydych wedi'i defnyddio i oleuo eich asesiad, gan gynnwys tystiolaeth gan blant neu eu cynrychiolwyr?***

Mae swyddogion wedi ymgysylltu â'r Fforwm Ymwelwyr Iechyd a'r Grŵp Penaethiaid Bydwreigiaeth i ganfod eu barn ar y cyd am y nwyddau sy'n cael eu cynnig ar hyn o bryd gan Lywodraeth yr Alban dan eu cynllun blwch babi (yr ydym ni'n ei ddefnyddio fel llinell sylfaen) i gynghori a yw'r rhain yn briodol yng Nghymru ac a oes unrhyw beth y byddem o bosibl yn dymuno'i newid neu ei ychwanegu. Ar y cyfan roedd y grwpiau'n gefnogol i ddarparu bwndel babi.

Dros yr haf ac yn ystod mis Medi mae gweithgarwch arolwg ar-lein a gwaith grwpiau ffocws ychwanegol wedi cael ei gynnal gyda rhieni newydd a chyda gweithwyr gofal iechyd proffesiynol fel bod swyddogion yn gallu casglu'r ystod ehangaf bosibl o safbwyntiau (yn yr amser a oedd ar gael) i oleuo'r bwndel a'i gynnwys. Mae grwpiau ffocws wedi cael eu cynnal mewn ystod o leoliadau ledled Cymru gydag o leiaf un grŵp ffocws wedi'i gynnal yn Gymraeg.

- ♦ ***Sut ydych chi wedi ymgynghori â phlant a phobl ifanc? Os nad ydych, eglurwch pam os gwelwch yn dda.***

Mae gwaith grwpiau ffocws wedi cael ei wneud gyda rhieni i blant bach er mwyn casglu'r ystod ehangaf bosibl o safbwyntiau i oleuo cynnwys y bwndel. Gan y bydd y bwndeli'n cael eu dosbarthu i rieni a'u bod wedi'u bwriadu i ddarparu nwyddau ar gyfer babanod newydd-anedig, ni fu unrhyw ymgynghori â phlant a phobl ifanc.

- ♦ ***Pa dystiolaeth arall fyddai'n goleuo'r asesiad?***

Yn yr amser a oedd ar gael mae swyddogion wedi ystyried amrywiaeth eang o dystiolaeth gan gynnwys canfyddiadau gwerthusiadau o gyflawni cynlluniau tebyg mewn gwledydd eraill.

### **Eglurwch sut y mae'r cynnig yn debygol o effeithio ar hawliau plant.**

Ar gyfer yr adran hon mae angen cynnal asesiad, gan ddefnyddio barn wybodus, o effaith debygol y cynnig ar hawliau plant yn CCUHP. Mae'n allweddol bwysig eich bod yn osgoi tybio bod y deilliannau bwriadedig a nodir uchod yr un fath â'r effaith a ragwelir ar hawliau plant.

Bydd angen i chi ystyried yn ofalus beth yw'r berthynas rhwng y deilliannau bwriadedig a hawliau plant a pha effaith fyddant yn ei chael. Efallai y bydd effeithiau a ragwelir nad ydynt yn ddeilliannau bwriadedig o ganlyniad i'r cynnig.

Dylech:

- ♦ ***Adnabod pa erthyglau yn CCUHP sydd fwyaf perthnasol i'r cynnig.***

**Erthygl 6:** Mae gan yr holl blant hawl i fywyd. Dylai llywodraethau sicrhau bod plant yn goroesi ac yn datblygu'n iach.

**Erthygl 19:** Dylai llywodraethau sicrhau bod plant yn cael gofal priodol a'u hamddiffyn rhag trais, a rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso gan eu rhieni neu unrhyw un arall sy'n gofalu amdanynt.

**Erthygl 24:** Mae gan blant yr hawl i ofal iechyd o ansawdd da ac i ddŵr glân, bwyd maethlon ac amgylchedd glân fel y byddant yn cadw'n iach.

**Erthygl 26:** Dylai llywodraethau ddarparu arian ychwanegol ar gyfer plant i deuluoedd mewn angen.

**Erthygl 27:** Mae gan blant hawl i safon byw sy'n diwallu eu hanghenion corfforol a meddyliol. Dylai'r Llywodraeth helpu teuluoedd nad ydynt yn gallu fforddio darparu hyn.

- ♦ ***Eglurwch a fydd – ac, os felly, sut y bydd – y cynnig yn cynyddu hawliau plant yn CCUHP i'r eithaf, yn eu hategu neu'n eu hyrwyddo, gan greu cysylltiadau rhwng y deilliannau a nodwyd yng nghwestiwn 1, a'r hawliau a nodwyd gennych.***

Bydd cynnig bwndel babi nid yn unig yn dangos y pwys y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi ar blant, ond bydd yn arwydd pendant o gymorth gan Lywodraeth Cymru i rieni a phlant ar adeg allweddol bwysig mewn bywyd. Bydd hefyd yn darparu bwndel defnyddiol o nwyddau a fydd yn mynd gryn dipyn o'r ffordd tuag at leihau'r angen am wariant ariannol gan rieni, er mwyn sicrhau bod y baban newydd-anedig yn cael dillad a gofal priodol. Trwy ddarparu eitemau a thafleuni gwybodaeth allweddol, mae'r bwndel babi wedi'i fwriadu i gynyddu dealltwriaeth rhieni am ymddygiad cadarnhaol megis cysgu'n ddiogel, ymlyniad, a bwydo ar y fron a'u hannog i arfer yr ymddygiadau hyn yn fwy. Bydd y bwndel yn ogystal â'r broses gofrestru hefyd yn rhoi cyfle i weithwyr ieuchyd proffesiynol ennyn ymgysylltiad teuluoedd ag ystod eang o wasanaethau ieuchyd, a chychwyn sgysiau am ymddygiadau cadarnhaol ac ymddygiadau sy'n achosi risg megis mabwysiadu arferion bwyta'n iach a ffyrdd iach o fyw, rhoi'r gorau i ysmegu a monitro carbon monocsid yn ogystal â'r neges 'dim alcohol'. Fodd bynnag, bydd angen i'r negeseuon gael eu dethol yn ofalus er mwyn peidio â'u gorlethu; y bwriad yw mai rhodd yw'r bwndel – heb unrhyw amodau.

- ♦ ***Cofiwch fod hybu hawliau plant yn cynnwys: cynyddu mynediad plant at eu hawliau, neu at wasanaethau a/neu adnoddau sy'n rhoi mynediad at hawliau, neu alluogi plant i gyfranogi yn eu hawliau a manteisio arnynt. Dylech egluro sut y mae'r cynnig yn cyflawni'r amcanion hyn, os o gwbl.***

Bydd bwndeli'n cael eu dosbarthu i'r holl fabanod newydd-anedig. Fodd bynnag, nid oes gorfodaeth ar rieni i dderbyn y bwndel ac efallai y bydd rhai'n dewis peidio â gwneud. Bydd eu rhesymau dros beidio â derbyn y bwndel yn cael eu casglu.

Mae'r ardal beilot yn debygol iawn o gynnwys ystod o dderbynyddion o wahanol gefndiroedd felly gall fod effaith gadarnhaol.

Mae canfyddiadau grwpiau ffocws wedi datgelu cefnogaeth gref i'r cynllun. Mae grwpiau ffocws wedi cynnwys unigolion o ystod o gefndiroedd.

- ♦ ***Eglurwch unrhyw effaith negyddol ar hawliau plant a fydd yn deillio o'r cynnig, gan gynnwys unrhyw leihad yn yr adnoddau sydd ar gael i gefnogi polisiâu neu raglenni.***

Bydd y cynllun peilot ar raddfa fach – tua 200 o fwndeli'n cael eu dosbarthu. Efallai y bydd effaith negyddol ar deuluoedd sy'n byw yn yr ardal beilot nad ydynt yn rhan o'r cynllun peilot. Bydd angen rheoli hyn trwy'r broses gyflawni a thrwy gyfathrebu gofalus.

- ♦ *Wrth ystyried yr uchod i gyd sicrhewch eich bod yn ystyried sut y bydd y cynnig yn effeithio ar hawliau gwahanol grwpiau o blant (e.e. plant sy'n byw mewn tlodi, plant ag anabledd a.y.b.).*

**Bydd bwndeli'n cael eu dosbarthu i bob baban newydd-anedig.**

**Mae'r ardal beilot yn debygol iawn o gynnwys ystod o dderbynyddion o wahanol gefndiroedd felly gall fod effaith gadarnhaol.**

**Mae canfyddiadau grwpiau ffocws wedi datgelu cefnogaeth gref i'r cynllun. Mae grwpiau ffocws wedi cynnwys unigolion o ystod o gefndiroedd.**

- ♦ *Cyfeiriwch at unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth sydd wedi goleuo eich asesiad, gan gynnwys gan blant neu eu cynrychiolwyr.*

**Mae gwaith grwpiau ffocws wedi cael ei wneud gyda rhieni i blant bach er mwyn casglu'r ystod ehangaf bosibl o safbwyntiau i oleuo cynnwys y bwndel. Gan y bydd y bwndeli'n cael eu dosbarthu i rieni a'u bod wedi'u bwriadu i ddarparu nwyddau ar gyfer babanod newydd-anedig, ni fu unrhyw ymgynghori â phlant a phobl ifanc.**